# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Medi 2017

Amser: 12.00 - 16.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4347

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru<br>Len Richards, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher<br>Dave Rees<br>John Herniman |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Strategaeth y Pwyllgor

1.1 Cymerodd Aelodau'r Pwyllgor ran mewn hyfforddiant fel rhan o'u paratoi ar gyfer y gwaith sydd i ddod ar graffu ar gyfrifon.

## 2 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

2.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wybodaeth ar lafar ar ganfyddiadau ei Archwiliad o Reoliadau Contractio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda RKC Associates Ltd a'i Berchennog, a gyhoeddwyd ar 17 Gorffennaf 2017.

## 3 Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Carmarthenshire Energy Limited: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

3.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wybodaeth ar lafar ar ganfyddiadau ei Adroddiad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Carmarthenshire Energy Limited, a gyhoeddwyd ar 20 Gorffennaf.

3.2 Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig er mwyn rhoi gwybod iddo am yr Adroddiad.

## 4 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wybodaeth ar lafar ar ganfyddiadau ei Adroddiad ar Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 31 Awst 2017.

4.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad ar y mater hwn.

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 5 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

5.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

5.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei rhan.

## 6 Papur(au) i'w nodi:

6.1 Cafodd y papurau eu nodi.

6.2 Cytunodd y Cadeirydd i anfon copi o ymateb Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

6.3 Mewn perthynas ag Eitem 6.7, Amseroedd Aros GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau Orthopedig, nododd yr Aelodau y cynnydd a wnaed a chytunwyd i dderbyn diweddariad pellach ar gynnydd yn ystod gwanwyn 2018.

6.1 Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach: gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (18 Gorffennaf 2017)

6.2 Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Cyf: gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (21 Gorffennaf 2017)

6.3 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: llythyr gan Dr Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (19 Gorffennaf 2017)

6.4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (25 Gorffennaf 2017)

6.5 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (26 Gorffennaf 2017)

6.6 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.7 Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau Orthopedig: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (7 Awst 2017)

6.8 Gweithredu Deddf Cymru 2017: Llythyr gan y Llywydd (18 Awst 2017) a llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (17 Medi 2017)

6.9 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 7 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

7.1 Trafododd Aelodau'r Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor a nododd y bydd y Cadeirydd yn anfon copi o'r ymateb at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

7.2 Cytunodd yr Aelodau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ystod y gwanwyn 2018 ond yn y cyfamser, bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ar nifer o bwyntiau a godwyd.

## 8 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

8.1 Trafododd Aelodau'r Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Pwyllgor a nododd yr ymateb cadarnhaol gan y sector tai.

8.2 Cytunodd yr Aelodau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ystod y gwanwyn a Thachwedd 2018.

## 9 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar

9.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod ymateb manwl i'w lythyr ar 26 Mehefin wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru a bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi sylwadau arno.

9.2 Oherwydd pwysau amser, dywedodd nad oedd digon o amser i ystyried a thrafod yr ymatebion yn fanwl.

9.3 Cytunodd yr aelodau i drafod yr ohebiaeth hon yn ystod y cyfarfod ar 2 Hydref 2017.

## 10 Cyflogau Uwch-reolwyr: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

10.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyflog uwch reolwyr ar draws sector cyhoeddus Cymru 2015-16.

10.2 Gofynnodd yr aelodau i'r Cadeirydd ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn diolch iddynt am yr adroddiad ac yn gofyn bod adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys manylion am sefydliadau addysg bellach a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.

## 11 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Sesiwn dystiolaeth

11.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Len Richards, Prif Weithredwr a Maria Battle, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog.

## 12 Sesiwn ymadawol: Owen Evans - Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

12.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ymadawol gydag Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, cyn iddo adael y sefydliad.

12.2 Dymunodd y Cadeirydd yn dda iddo yn ei rôl newydd fel Prif Weithredwr S4C.

## 13 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

13.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 14 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law

14.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ddychwelyd i'r mater unwaith y derbyniwyd yr adroddiad gwrth-dwyll.

14.2 Yn y cyfamser, cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Brif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn tynnu sylw at bryderon y Pwyllgor ac yn ceisio sicrwydd y bydd eu cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor.

## 15 Sesiwn ymadawol: Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law

15.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.